Cardiff Council Update: 16th July

Here is tonight's update from Cardiff Council, covering: news from today's meeting of the Cardiff Council Cabinet; latest on the opportunity for businesses to use our outdoor event spaces; and poor food hygiene standards results in restaurant fine.

Today's Cardiff Council Cabinet meeting

A meeting of Cardiff Council's Cabinet took place today, the third consecutive meeting to be held over video conference.

The Leader of the Council, Cabinet Members, and Leaders of the opposition groups discussed the following reports:

Leader

- Establishment of a Race Equality Taskforce

Housing and Communities

- Homelessness - The Response To The Covid-19 Crisis and Delivering The Future Service Model

Education, Employment and Skills

- Mutual Investment Model (MIM) Strategic Partnering Agreement

Finance, Modernisation & Performance

- Outturn 2019/20
- Re-Procurement of Former National Procurement Service (NPS) Collaborative Construction and Civils Consultancy Frameworks

The meeting was also webcast, and a recording of that, along with links to the Cabinet reports, can be viewed here:
https://cardiff.moderngov.co.uk/ieListDocuments.aspx?CId=151&MId=4206&Ver=4

The following press releases were published in the lead up to today's meeting:

Taskforce to tackle discrimination and injustice faced by Cardiff's BAME communities
Click here to view:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24320.html

No Going Back: New vision for homelessness services
Click here to view:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24324.html

Delivering 21st Century Schools Programme with support from Mutual Investment Model (MIM)
Click here to view:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24321.html

To see the listings of all forthcoming meetings, including Scrutiny meetings, Cabinet meetings and meetings of Full Council, visit www.cardiff.gov.uk/meetings

Three Cabinet meetings have been held online to date. Links to the webcasts of the previous two meetings that took place over video conference are as follows:

24th June 2020:
https://cardiff.moderngov.co.uk/ieListDocuments.aspx?CId=151&MId=4197&Ver=4

11th June 2020:
https://cardiff.moderngov.co.uk/ieListDocuments.aspx?CId=151&MId=4176&Ver=4

Business opportunity to use outdoor event space

Last week we asked for expressions of interest from businesses experiencing limitations with their usual indoor premises due to Covid-19 in the possibility of utilising outdoor event spaces in some of Cardiff's parks.

Given the level of interest, we will now be proceeding with this - initially at sites near Blackweir, and expect to start taking bookings shortly.

If your business could benefit, please complete this quick survey:
https://www.surveymonkey.co.uk/r/OutdoorSpace

Cockroach infestation found at City Road café and takeaway

A married couple have been ordered to pay over £2,000 at Cardiff Magistrates' Court on July 9th after a cockroach infestation was found at their café - Mr Tikka - on City Road last year.

On May 7, 2019, a routine food hygiene inspection was carried out at Mr Tikka, 130 City Road, which operates as a café and takeaway business selling baguettes, baked potatoes and curry dishes.

When the inspector arrived at the café unannounced, the owner, Rubi Begum was seen sweeping two live insects off the counter and white powder, believed to be insecticide, was all over the kitchen floor.

The inspector called the Duty Food Safety Officer immediately as it was clear that there was an active insect infestation at the café and takeaway business.

When the Duty Food Officer arrived later that day, a full inspection was carried out and up to 100 insects were found both dead and alive in total, food was found under the counters and splashed across the walls and dead cockroaches were even found under the tables in the dining area where people were eating.

Read more here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24360.html

Diweddariad Cyngor Caerdydd: 16 Gorffennaf

Dyma ddiweddariad heno gan Gyngor Caerdydd sy'n cwmpasu: newyddion o gyfarfod heddiw Cabinet Cyngor Caerdydd; y diweddaraf ar y cyfle i fusnesau ddefnyddio ein mannau digwyddiadau yn yr awyr agored; a chanlyniadau safonau hylendid gwael ym maes erlyn bwytai.

Cyfarfod Cabinet Cyngor Caerdydd Heddiw

Cynhaliwyd cyfarfod o Gabinet Cyngor Caerdydd heddiw, y trydydd cyfarfod yn olynol i gael ei gynnal dros gynhadledd fideo.

Trafododd Arweinydd y Cyngor, Aelodau Cabinet ac Arweinwyr grwpiau'r gwrthbleidiau yr adroddiadau canlynol:

Arweinydd

- Sefydlu Tasglu Cydraddoldeb Hiliol

Tai a Chymunedau

- Digartrefedd - Yr Ymateb i Argyfwng Covid-19 a Chyflawni Model Gwasanaeth y Dyfodol

Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau

- Cytundeb Partneriaeth Strategol Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC)

Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad

- Alldro 2019/20
- Ailgaffael Fframweithiau Caffael Cenedlaethol Adeiladu Cydweithredol ac Ymgynghoriaeth Sifil Blaenorol

Cafodd y cyfarfod ei weddarlledu hefyd, a gellir gweld recordiad ohono, ynghyd â dolenni i adroddiadau'r Cabinet, yma:
https://cardiff.moderngov.co.uk/ieListDocuments.aspx?CId=151&MId=4206&Ver=4

Hefyd cyhoedwyd y datganiadau canlynol i'r wasg yn y cyfnod cyn cyfarfod heddiw:

Tasglu i fynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghyfiawnder y mae cymunedau BAME Caerdydd yn eu hwynebu
Cliciwch yma i weld:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24320.html

Dim Troi Nôl: Gweledigaeth newydd ar gyfer gwasanaethau digartrefedd
Cliciwch yma i weld:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24324.html

Cyflawni Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gyda chymorth Model Buddsoddi Cydfuddiannol
Cliciwch yma i weld:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24321.html

I weld rhestrau'r holl gyfarfodydd sydd i ddod, gan gynnwys cyfarfodydd Craffu, cyfarfodydd Cabinet a chyfarfodydd y Cyngor Llawn, ewch i www.caerdydd.gov.uk/cyfarfodydd

Cynhaliwyd tri chyfarfod Cabinet ar-lein hyd yn hyn. Mae dolenni at weddarllediadau'r ddau gyfarfod blaenorol a gynhaliwyd dros gynadledda fideo fel a ganlyn:

24 Mehefin 2019
https://cardiff.moderngov.co.uk/ieListDocuments.aspx?CId=151&MId=4197&Ver=4

11 Mehefin 2020:
https://cardiff.moderngov.co.uk/ieListDocuments.aspx?CId=151&MId=4176&Ver=4

Y diweddaraf ar y cyfle i fusnesau ddefnyddio ein mannau digwyddiadau yn yr awyr agored

Yr wythnos ddiwethaf, gwnaethom ofyn i fusnesau, sy'n ei chael hi'n anodd gyda'u safleoedd dan do arferol oherwydd COVID-19, ddatgan diddordeb o ran y posibilrwydd o ddefnyddio mannau digwyddiadau awyr agored yn rhai parciau Caerdydd.

O ystyried lefel y diddordeb, byddwn nawr yn bwrw ymlaen â hyn - yn y lle cyntaf ar safleoedd ger y Gored Ddu, ac yn disgwyl dechrau derbyn archebion cyn bo hir.

Os ydych chi'n fusnes a allai elwa, cwblhewch yr arolwg cyflym hwn:

https://www.surveymonkey.co.uk/r/ManAwyrAgored

Pla chwilod duon wedi'i ddarganfod yng nghaffi a siop gludfwyd Heol y Plwca

Gorchymynnwyd i gwpl priod dalu dros £2,000 yn Llys Ynadon Caerdydd ar 9 Gorffennaf ar ôl i bla chwilod duon gael ei ddarganfod yn eu caffi - Mr Tikka – ar Heol y Plwca y llynedd.

Ar 7 Mai 2019, cynhaliwyd archwiliad hylendid bwyd arferol yn Mr Tikka, 130 Heol y Plwca, sy'n gweithredu fel caffi a busnes cludfwyd gan werthu bagéts, tatws pob a phrydau bwyd cyri.

Pan gyrhaeddodd yr arolygydd y caffi'n ddirybudd, gwelwyd y perchennog, Rubi Begum, yn ysgubo dau bryfyn byw oddi ar y cownter ac roedd powdr gwyn, y credir ei fod yn bryfleiddiad, dros lawr y gegin.

Ffoniodd yr arolygydd y Swyddog Diogelwch Bwyd ar Ddyletswydd yn syth gan ei bod yn amlwg bod pla pryfed yn y caffi a'r busnes cludfwyd.

Pan gyrhaeddodd y Swyddog Bwyd ar Ddyletswydd yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, cynhaliwyd archwiliad llawn a darganfuwyd hyd at 100 o bryfed, yn fyw ac wedi marw; daethpwyd o hyd i fwyd o dan y cownteri ac ar y waliau a darganfuwyd chwilod duon hyd yn oed o dan y byrddau yn yr ardal fwyta lle roedd pobl yn bwyta.

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24361.html